# Crynodeb Gweithredol[1]

*Mae'r ymgynghoriad hwn yn archwilio pedwar opsiwn mewn perthynas â chyfathrebiadau masnachol ar radio[2]. Mae'r rhain yn amrywio o gadw rheoliadau cyfredol i'r posibilrwydd o ddarparu llawer rhagor o ryddid, yn cynnwys caniatáu integreiddio cyfathrebiadau masnachol o fewn rhaglenni golygyddol.*

*Ar y cyfan mae cyfathrebiadau masnachol ar radio yn gyfeiriadau darlledu tuag at gynnyrch a gwasanaethau y telir amdanynt. Ar hyn o bryd maent yn cynnwys:*

- *Hysbysebion sbot a ddarlledir yn ystod egwyl fasnachol; a*
- *Credydau nawdd sydd yn enwi nawdd rhaglennu (neu orsaf) ac sydd yn cael eu darlledu o gwmpas (ac weithiau yn ystod) y rhaglennu a noddir.*

*Ar hyn o bryd rhaid cadw hysbysebion sbot ar wahân i raglennu radio (y cyfeirir ato weithiau fel 'golygyddol') a dim ond yn ystod egwyl fasnachol y maent yn ymddangos. Felly yr unig gyfathrebiadau masnachol y telir amdanynt a ganiateir ar hyn o bryd yn ystod rhaglennu radio yw credydau nawdd. Ond, dylid nodi y gellir gosod negeseuon hysbysebu ar hyn o bryd yn yr hysbysebion sbot a chredydau nawdd.*

## Cyflwyniad

1.1 O dan y Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ("y Ddeddf") mae'n ofynnol i Ofcom lunio, ac o dro i dro, diwygio côd ar gyfer gwasanaethau teledu a radio, yn cynnwys safonau mewn rhaglenni, nawdd a thegwch a phreifatrwydd. Gelwir y côd hwn yn Gôd Darlledu Ofcom ("y Côd") a daeth i rym ar 25 Gorffennaf 20053, yn dilyn ymgynghori cyhoeddus ac ymchwil helaeth yn ystod 2004.

1.2 Yn Adroddiad Blynyddol 2008/09 ymrwymodd Ofcom i adolygu'r Côd ac ystyried a oedd yn parhau i adlewyrchu'r defnyddwyr, y diwydiant a'r amgylcheddau rheoleiddiol. Wrth ymateb i'r ymrwymiadau hyn ym Mehefin 2009 lansiodd Ofcom ei Ymgynghoriad ar Adolygiad o'r Côd Darlledu[4].

1.3 Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus llawn yn haf 2009, cyhoeddodd Ofcom Gôd diwygiedig[5] ym mis Rhagfyr 2009.

1.4 Ond, ymestynnodd Ofcom ei adolygiad o Adrannau Naw a Deg o'r Côd (sydd ar hyn o bryd yn berthnasol i drefniadau nawdd a chyfeiriadau masnachol eraill). Roedd yr ymestyniad hwn i fod i gymryd i ystyriaeth benderfyniad y Llywodraeth i ganiatáu (yn amodol i gyfyngiadau) lleoliad cynnyrch ar deledu h.y. caniatáu cyfeiriadau darlledu heb fod yn rhai hyrwyddo tuag at gynnyrch neu wasanaethau o fewn rhaglennu teledu, yn gyfnewid am dâl..

---

[1] Gweler y Rhestr Eirfa yn Atodiad 5 am ystyron y termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon.
[2] Er pwrpas y ddogfen hon mae cyfeiriadau at radio'n cyfeiro at wasanaethau radio sy'n cael eu drwyddedu gan Ofcom (heb gynnwys wasanaethau'r BBC sy'n cael ei harriannu gan y ffi drwydded).
[3] Mae'r Côd wedi'i ddiwygio wedi hynny yn Hydref 2008 a Rhagfyr 2009 2009
[4] http://www.ofcom.org.uk/consult/condocs/bcode09/main.pdf
[5] http://www.ofcom.org.uk/tv/ifi/codes/bcode/

1.5 Mae ymgynghoriad ar wahân wedi'i gyhoeddi mewn perthynas â chyfeiriadau masnachol mewn rhaglennu teledu[6]. Yn y papur ymgynghori hwn ar gyfathrebiadau masnachol mewn radio mae Ofcom wedi cymryd i ystyriaeth y tirwedd polisi rheoleiddiol a darlledu ehangach mewn perthynas â lleoliad cynnyrch a chyfeiriadau masnachol ar deledu. Cynigiwn bedwar dewis yn ymwneud â rheoliad cyfathrebiadau masnachol mewn radio yn y dyfodol a gwahoddwn ymatebion gan randdeiliaid i'r rhain.

## Trosolwg o'n hymagwedd

1.6 Nododd Adolygiad Côd 2009 Ofcom ein bwriad i adolygu Adrannau Naw a Deg o'r Côd, gan ddisodli'r rhain gydag Adran Naw ddiwygiedig i ddelio gyda theledu ac Adran Deg ddiwygiedig i ddelio gyda radio. Rydym yn parhau i fod o'r farn y byddai'r strwythur diwygiedig arfaethedig yn adlewyrchu'r gwahaniaeth rhwng y fframwaith statudol ar gyfer cyfeiriadau masnachol mewn rhaglennu radio a theledu yn well. Derbyniwyd cymeradwyaeth rhan ddeiliaid tuag at yr ymagwedd hon yn Ymgynghoriad 2009.

1.7 Mae'r Ymgynghoriad 2010 cyfredol yn nodi cynigion ychwanegol ar adolygiadau i Adran Deg newydd arfaethedig o'r Côd, mewn perthynas â chyfathrebiadau masnachol ar radio.

1.8 Mae'r cynigion yn ceisio sicrhau bod y Côd yn parhau'n addas i bwrpas, trwy barhau i gymryd ystyriaeth briodol o fuddiannau gwrandawyr (yn cynnwys diogelwch priodol i ddefnyddwyr), buddiannau'r diwydiant radio, a datblygiadau yn yr amgylchedd rheoleiddiol a pholisi cyhoeddus ehangach.

1.9 Mae'r canlynol yn crynhoi yn gryno y pedwar dewis ar gyfer ymgynghori cyhoeddus a nodir yn llawn yn **Rhannau 4 i 7** o'r ddogfen hon fel ei gilydd[7]:

- **Dewis A**: '*Gwneud dim a chynnal yr egwyddor o 'wahanu'*[8] .Mae hwn yn ddewis 'status quo' a byddai'n cynnal y rheolau cynhwysfawr cyfredol sydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl gyfathrebiadau masnachol (h.y. cyfeiriadau y telir amdanynt tuag at gynnyrch neu gwasanaethau) ar wahân i gredydau nawdd, gael eu gwahanu oddi wrth raglennu. O dan y dewis hwn byddem yn dynwared y rheolau sydd ar hyn o bryd yn Adrannau Naw a Deg o'r Côd, mewn perthynas â radio, mewn Adran Deg newydd. O dan Dewis A, byddai'r egwyddorion rheoleiddiol cyfredol o **dryloywder, gwahanu ac annibyniaeth olygyddol** yn parhau.

- **Dewis B**: *Cynnal yr egwyddor o 'wahanu' ond darparu set o esemptiadau* Byddai'r dewis hwn hefyd yn cael ei fframio fel set gynhwysfawr o reolau a byddai'n cynnal y gofyniad i wahanu cyfathrebiadau masnachol (h.y. cyfeiriadau y talwyd amdanynt tuag ar gynnyrch a gwasanaethau) oddi wrth raglennu, ond byddai'n darparu set ddiffiniedig o esemptiadau. Hon oedd yr ymagwedd a gymrodd Ofcom yn 2009, er y gallai'r dewis hwn gynnwys ystod ehangach o esemptiadau na'r rhai a gynigiwyd yn

[6] http://www.ofcom.org.uk/consult/condocs/bcrtv2010/

[7] Gweler y Rhestr Eirfa yn Atodiad 5 ar gyfer ystyron y termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon.

[8] Gwahanu (ar radio): ar hyn o bryd ni ellir integreiddio cyfathrebiadau masnachol i gynnwys golygyddol rhaglenni. Yn hytrach mae'n ofynnol eu cad war wahân o'r cynnwys golygyddol, fel rheol (y nachos hysbysebion neu gredydau nawdd) trwy ymddangos ar ddechrau ac/neu ar ddiwedd rhaglenni (neu yn ystod egwyl hysbysebion) ac yn hawdd i'w hadnabod o gynnwys golygyddol trwy ddulliau clywedol.

ymgynghoriad 2009. Unwaith eto, byddai egwyddorion **tryloywder, gwahanu ac annibyniaeth olygyddol,** y cyfeirir atynt uchod, yn waelodol i Ddewis B.

- **Dewis C**: *Caniatáu integreiddio cyfathrebiadau masnachol a rhaglennu (ac eithrio mewn perthynas â hysbysebion sbot*). Byddai'r dewis hwn yn cael gwared ar yr egwyddor o 'wahanu' ac eithrio mewn perthynas â hysbysebion sbot (y byddai'n rhaid eu gwahanu oddi wrth raglennu). Byddai hyn yn rhoi mwy o ddewis i orsafoedd radio integreiddio, er enghraifft, cyfeiriadau masnachol hyrwyddol y telir amdanynt i raglennu, cyn belled â'u bod yn dryloyw i wrandawyr. Byddai'r dewis hwn yn cadw gwerth hysbysebion sbot fel math amlwg o gynnwys a ffynhonnell refeniw amlwg. Byddai'n cael ei gyflwyno fel set denau o reolau gyda'r bwriad o sicrhau un egwyddor: **tryloywder** trefniadau masnachol. Byddai tryloywder o'r fath yn ganolog i sicrhau diogelwch y defnyddwyr. Byddai gwrandawyr yn gwybod pryd y byddai trefniant masnachol yn ei le mewn perthynas â rhaglennu. Ni fyddai egwyddorion annibyniaeth golygyddol a gwahanu (ac eithrio mewn perthynas â hysbysebion sbot) yn berthynol bellach o dan Dewis C.

- **Dewis D**: *Caniatáu integreiddiad di-dor o'r holl gyfathrebiadau masnachol (yn cynnwys hysbysebion sbot) a rhaglennu.* Byddai'r dewis hwn yn cael gwared ar yr egwyddor o 'wahanu' (yn cynnwys mewn perthynas â hysbysebion sbot). Byddai hyn yn rhoi dewis llwyr i orsafoedd radio i integreiddio elfennau masnachol yn ddi-dor i raglennu ac ni fyddai'n gwahaniaethu rhwng hysbysebion sbot traddodiadol a chyfathrebiadau masnachol eraill. Byddai'n cael ei gyflwyno fel set denau o reolau gyda'r diben o sicrhau egwyddor o **dryloywder** trefniadau masnachol. Fel ag ar gyfer Dewis C uchod, byddai tryloywder o'r fath yn ganolog i sicrhau diogelwch defnyddwyr. Ni fyddai egwyddorion annibyniaeth golygyddol a gwahanu yn berthnasol bellach o dan Dewis D.

1.10 Mae tair set o reolau (mewn perthynas â Dewisiadau A i C) yn gynwysedig yn yr ymgynghoriad hwn. Rydym hefyd yn nodi darluniau rhagarweiniol sydd yn adlewyrchu'r gwahanol fframweithiau rheoleiddiol allai fod yn waelodol i Ddewis D , ond pe bai Dewis D yn cael ei fabwysiadu byddem yn ail ymgynghori ar ddewisiadau rheoleiddiol manwl ac ar set(iau) o reolau i gyd-fynd â hynny. Gofynnwyd i randdeiliaid feddwl, yn Atodiad 9, am esiamplau o allbwn all wrandawyr glywed o dan bob opsiwn

## Meysydd perthnasol o ddeddfwriaeth

1.11 Mae Rhan 3 o'r ddogfen hon yn amlinellu dyletswyddau statudol Ofcom a meysydd eraill o ddeddfwriaeth sydd yn berthnasol i'r ymgynghoriad hwn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Dyletswydd Ofcom i sicrhau nad yw ei reoliadau yn gosod beichiau diangen ac nad yw'n cynnal beichiau rheoleiddiol sydd wedi dod yn ddiangen; a,

- Pwerau Ofcom i orfodi darpariaethau perthnasol Rheoliadau Diogelu Defnyddwyr rhag Masnachu Annheg 2008[9]. Ymysg pethau eraill, mae'r

[9] Mae Rheoliadau ar gael yn: http://www.opsi.gov.uk/si/si2008/draft/ukdsi_9780110811574_en_1

Rheoliadau'n nodi'n glir y byddai defnyddio cynnwys golygyddol yn y cyfryngau i:

*"hyrwyddo cynnyrch lle mae masnachwr wedi talu am yr hyrwyddo heb wneud hynny'n eglur yn y cynnwys neu trwy ddelweddau neu sain sydd yn gwbl ddealladwy gan y defnyddiwr (hysbysebol)"*[10]

yn ymarfer masnachol sydd yn annheg ac felly wedi'i wahardd.

Mae'r rheoliad hwn yn sicrhau bod cynulleidfaoedd yn deall er enghraifft pryd y mae cyfeiriadau darlledu hyrwyddol wedi cael eu talu amdanynt. Mae o arwyddocâd allweddol o ran ei gwneud yn ofynnol i gael arwyddion priodol am hyrwyddiadau y talwyd amdanynt wedi'u hintegreiddio o fewn cynnwys golygyddol. Fe'i hadlewyrchir yn yr egwyddor o dryloywder sydd yn ymddangos yn y pedwar dewis arfaethedig a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn, gan fod hyn yn cyfrannu'n sylweddol tuag at sicrhau diogelwch digonol i ddefnyddwyr.

1.12 Hefyd mae'r Ddeddf Economi Ddigidol[11] yn caniatáu dadreoleiddio cyfyngedig o gynnwys radio, yn enwedig o ran caniatáu i orsafoedd lleol uno o fewn ardaloedd mwy a ddiffinnir gan Ofcom. Yn dilyn ein hymgynghoriad y llynedd, mae'r datganiad a gyhoeddwyd ar 15 Ebrill 2010 yn nodi ein polisi newydd ar leolrwydd[12]. Mae Ofcom hefyd wedi adolygu meysydd neilltuol o reoleiddio radio – er enghraifft, fformatau cerddoriaeth.

## Materion yn codi o'r dewisiadau arfaethedig

1.13 Wrth ystyried y dewisiadau hyn rydym wedi nodi nifer o faterion all godi ohonynt. Mae'r rhain yn ymwneud ag a ddylid gosod cyfyngiadau neu waharddiadau ychwanegol ar gyfathrebiadau masnachol sydd wedi'u hintegreiddio o fewn rhaglennu radio, mewn perthynas â:

- trefniadau masnachol gyda, ac/neu gyfeiriadau at gynnyrch neu wasanaethau sydd â'r potensial o fod yn niweidiol ar radio ;
- rhaglennu wedi'i anelu'n bennaf at blant;
- rhaglennu materion defnyddwyr;
- mesurau diogelwch a gwaharddiadau cyfredol mewn perthynas â newyddion a materion gwleidyddol a dadleuol;
- rhaglennu crefyddol;
- a oes angen ystyriaeth neilltuol ar gyfer cyllido trefniadau masnachol gan gyrff heb fod ar gyfer elw ac heb fod yn fasnachol; a
- a oes angen ystyriaeth ar gyfer cyllido dewis neu gylchdroi cerddoriaeth mewn perthynas â Dewisiadau C a D.

1.14 Trafodir y rhain o dan 'Cyflwyniad' isod ac yn Rhannau 4 i 7.

---

[10] Atodlen 1, paragraff 11 o'r rheoliadau.
[11] http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2010/ukpga_20100024_en_1
[12] http://www.ofcom.org.uk/consult/condocs/radio/statement/Localness_statement.pdf

## Ymchwil defnyddwyr

1.15 Fel rhan o Adolygiad Côd 2009, comisiynodd Ofcom ymchwil ystyriol ac ansoddol i agweddau defnyddwyr tuag at gyfeiriadau masnachol ar radio. Cyhoeddwyd y canfyddiadau ym mis Mehefin 2009[13]. Comisiynwyd yr ymchwil yn benodol i asesu i ba raddau y mae gwrandawyr radio yn fodlon derbyn cyfeiriadau sydd yn destun trefniadau masnachol *o fewn* rhaglennu. Dangosodd y byddai defnyddwyr yn fodlon derbyn rhyddhau. Roedd hyn yn seiliedig ar ddisgwyliad bod "radio masnachol", fel yr awgryma'i enw, yn ôl ei natur, yn fasnachol.

1.16 Cyfeirir at yr ymchwil, lle bo'n briodol, mewn perthynas â'r dewisiadau a amlinellir uchod.

## Ymagwedd tuag at Asesiad Effaith

1.17 Nid oes dogfen asesiad effaith ar wahân yn y ddogfen ymgynghori. Yn hytrach, mae'r ddogfen ymgynghori gyfan yn asesu effaith y newidiadau arfaethedig ar randdeiliaid (yn cynnwys dinasyddion-defnyddwyr, darlledwyr radio a hysbysebwyr)

1.18 Mae'r asesiad wedi'i lywio gan yr ymatebion i'r Adolygiad Côd 2009, ein trafodaethau cyn ymgynghori 2010 gyda rhanddeiliaid a'r ymchwil defnyddwyr a gynhaliwyd mewn perthynas â radio masnachol (y cyfeiriwyd ato uchod).

1.19 Mewn perthynas â chydraddoldeb, mae'n ofynnol i Ofcom yn ôl statud i dalu sylw dyladwy i unrhyw effeithiau potensial y gallai ei gynigion eu cael ar gydraddoldeb hil, anabledd a rhyw, yn ogystal  ag ar grwpiau eraill sydd wedi'u diogelu gan ddeddfwriaeth yng Ngogledd Iwerddon[14]. I gyflawni'r rhwymedigaeth hon, rydym wedi cwblhau ffurflen sgrinio Asesiad Effaith Cydraddoldeb (yn amgaeedig yn Atodiad 6), sydd ar ffurf dadansoddiad cychwynnol i weld a yw'r cynigion yr ydym yn eu gwneud yn codi materion cydraddoldeb, ac os felly, beth yw eu heffeithiau potensial.

1.20 Ar ôl gorffen yr ymgynghoriad ac ystyried ymatebion rhan ddeiliaid, byddwn yn adolygu, ar sail yr ymatebion a dderbyniwyd gan ran ddeiliaid, a oes effeithiau cydraddoldeb mewn gwirionedd ac/neu ystyriaethau nad ydym hyd yn hyn wedi rhoi ystyriaeth iddynt. Pe byddem yn darganfod tystiolaeth i gefnogi hyn byddwn yn mynd ati i gynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb llawn. Bydd ein datganiad cyhoeddedig yn cynrychioli casgliad y broses ymgynghori hon yn nodi a wnaeth Ofcom gynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb llawn ai peidio ac os felly, y casgliadau o'r asesiad hwnnw. Bydd ystyriaethau o'r fath hefyd yn llywio ein diwygiadau terfynol o'r Côd.

## Canllaw

1.21 Rydym yn bwriadu diwygio'r canllaw cyfredol i'r Côd, fel bo'n briodol, yng ngoleuni'r newidiadau a wnaethpwyd yn dilyn yr ymgynghoriad hwn. Rydym wedi nodi lle yr ydym yn ystyried y byddai canllaw newydd yn briodol ac o gymorth i ddarlledwyr a gwrandawyr mewn perthynas â'r newidiadau neilltuol

---

[13] http://www.ofcom.org.uk/consult/condocs/bcode09/radioresearch.pdf

[14] Yn ychwanegol at hil, anabledd a rhyw, mae deddfwriaeth cydraddoldeb yng Ngogledd Iwerddon hefyd yn cynnwys oedran, cyfeiriadedd rhywiol, gofalwyr, statws priodasol, cred crefyddol a barn wleidyddol.

yr ydym yn eu cynnig. Mae’r canllaw cyfredol i’r Côd ar gael yn http://www.ofcom.org.uk/tv/ifi/guidance/bguidance/.

## Y camau nesaf

1.22 Mae’r rhannau canlynol o’r ddogfen yn nodi ein cynigion ac yn gwahodd barn rhanddeiliaid arnynt. Wrth ymateb i’r cwestiynau i ran ddeiliaid, gweler Rhan 3 os gwelwch yn dda sydd yn nodi amcanion rheoleiddiol a dyletswyddau statudol Ofcom. Bydd yr ymatebion i’r ymgynghoriad yn ein galluogi i ystyried ein cynigion yng ngoleuni sylwadau rhan ddeiliaid. Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o’r ymatebion a datganiad mewn ymateb pan gyhoeddir y Côd diwygiedig.

1.23 Dylai rhanddeiliaid nodi nes bod Ofcom yn cyhoeddi ei Ddatganiad a’i Gôd diwygiedig, yn dilyn dyddiad cau'r ymgynghoriad hwn, bydd y Côd cyfredol yn parhau mewn grym.